
Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Templed Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Ystyriwch y siart llif isod cyn dechrau'ch asesiad. Rhaid i bob corff cyhoeddus roi ystyriaeth ddyledus i'r Nodweddion Gwarchodedig a nodir o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010.




| | |
|---|---|
| Enw'r polisi, gweithdrefn neu faes busnes: | Praesept Heddlu'r Dreth Gyngor |
| Enw'r person sy'n cynnal yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb: | Cheryl Gayther |
| Rôl y person sy'n cynnal yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb: | Ymgynghorydd Polisi<br>Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) |

## 1. Diben

| | |
|---|---|
| 1.1 Beth yw dibenion y polisi, gweithdrefn neu weithgaredd, a sut maen nhw'n cyd-fynd ag amcanion ehangach y sefydliad? | Ffi flynyddol a godir gan gynghorau lleol ar gyfer y gwasanaethau lleol y maent yn eu darparu yw'r dreth gyngor. Y gyfradd praesept yw'r gyfradd dreth y mae cynghorau'n codi ar ran Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu er mwyn cefnogi gwasanaethau plismona.<br><br>Un o gyfrifoldebau allweddol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw gosod y praesept bob blwyddyn. Wrth wneud hynny, mae nifer o wahanol ffactorau'n cael eu hystyried, gan gynnwys gofyniad adnoddau i'r dyfodol y Prif Gwnstabl, lefel y cronfeydd wrth gefn, adborth gan breswylwyr Dyfed-Powys a chynlluniau i'r dyfodol ar gyfer buddsoddi mewn isadeiledd.<br><br>Bydd hyn yn galluogi'r Heddlu i barhau i ganolbwyntio ar gyflenwi'r Cynllun Heddlu a Throseddu, mynd i'r afael â blaenoriaethau sydd wedi'u hamlinellu o fewn Datganiad |

| | |
|---|---|
| | Rheoli'r Heddlu, a pharhau i ddiogelu cymunedau Dyfed-Powys. |
| 1.2 Beth yw ysgogwyr neu'r grymoedd sy'n gyrru datblygu'r polisi, gweithdrefn neu weithgaredd? | Yn unol ag adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, mae gofyn i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu amlinellu'r penderfyniadau yn ymwneud â gofyniad cyllideb, y dreth gyngor a gofynion praesept.<br><br>Amlinellir y broses y mae'n rhaid ei dilyn wrth gyhoeddi praesept yn atodlen 5 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.<br>Mae'r cyfraniadau praesept yn sicrhau fod gan y CHTh y gallu i gyflenwi'r blaenoriaethau yn ei gynllun heddlu a throseddu, sef:<br>Cefnogi Dioddefwyr ac Atal Erledigaeth<br>Cefnogi Cymunedau Diogel trwy Atal Niwed<br>Cefnogi System Gyfiawnder Mwy Effeithiol |

## 2. Asesiad

Er mwyn asesu effaith y polisi, gweithdrefn neu weithgarwch, neu'r effaith bosibl ar berson, mae'n bwysig edrych ar yr holl ddata a gwybodaeth sydd ar gael ichi. Efallai y bydd angen cael gwybodaeth bellach drwy ymgynghori, a dylid cynnwys hyn hefyd.

Rydych chi'n edrych am ragfarn sy'n medru digwydd pan mae gwahaniaethau sylweddol rhwng grwpiau o bobl yn y ffordd y mae'r polisi, gweithdrefn neu weithgaredd yn effeithio arnynt, mewn perthynas â Nodweddion Gwarchodedig (oed, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred).

Wrth gynnal yr asesiad hwn, awgrymir eich bod chi'n ystyried:

- **Data mewn perthynas â'r data amrywiaeth personol** sy'n berthnasol i'r polisi. Er enghraifft, os yw'r polisi'n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau, efallai bydd angen ichi edrych ar ddata'r cyfrifiad, ac unrhyw ddata amrywiaeth personol sydd gennym mewn perthynas â phobl yn cael mynediad at y gwasanaethau hynny.
- **Data cwynion** – gall nodi materion sydd angen sylw drwy'r asesiad effaith cydraddoldeb e.e. bydd angen ymdrin â chwynion mewn perthynas â hygyrchedd ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn yn y ddalfa drwy'r asesiad effaith cydraddoldeb wrth adolygu'r ddogfen weithdrefn ar gyfer dalfeydd.
- **Unrhyw ymchwil sydd ar gael mewn perthynas ag anghydraddoldeb o gwmpas y mater polisi** – gall hyn gynnwys adroddiadau AHEF, adroddiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ati. Er enghraifft, mae sawl adroddiad sy'n nodi'r anghydraddoldeb o gwmpas stopio a chwilio, ac amrywiaeth swyddogion heddlu y gellir ystyried wrth ddrafftio asesiadau effaith cydraddoldeb perthnasol.
- **Ymgynghori â grwpiau amrywiol, gan gynnwys ein hyrwyddwyr amrywiaeth, aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol a rhwydweithiau cefnogi staff** – byddai hyn yn cynnig her allanol i'r asesiad effaith cydraddoldeb ac yn sicrhau bod barn ein cymunedau amrywiol yn cael eu hystyried.
- **Unrhyw ddata arolygon sy'n bodoli mewn perthynas â'r mater hwn.**
- **Unrhyw unigolion/grwpiau eraill rydych chi'n credu y gallent eich cynorthwyo** – gyda chysylltiad uniongyrchol â'r mater.

Ceir detholiad o ddata a allai fod yn ddefnyddiol ichi ar y dudalen fewnrwyd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Os oes angen cyngor arnoch chi mewn perthynas â’r data/gwybodaeth y mae angen ichi ystyried wrth gwblhau’r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn, peidiwch ag oedi i gysylltu â’r Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth drwy *Teams*.

| Rhestrwch yr holl ddata/ymgynghori/ymchwil rydych chi wedi ystyried wrth gyflawni’r asesiad hwn: |
|---|
| Gwneir penderfyniad ar lefel y praesept ar sail:<br>• Ymgynghoriad Cyhoeddus – Barnau gan y cyhoedd a gweithlu Heddlu Dyfed-Powys.<br>• Gofynion cyllideb yr heddlu.<br>• Gofynion cyllideb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.<br>• Cyllid gan y Llywodraeth Ganolog<br>• Cynlluniau ariannol y dyfodol fel y nodir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol.<br>• Trafodaethau yng nghyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu ar 24/01/25 lle y derbyniwyd y praesept arfaethedig.<br><br>Mae cyllidebau'r ddau sefydliad yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflawni'r amcanion o fewn eu cynlluniau cydraddoldeb strategol. |

**Rhowch fanylion am ganlyniad eich asesiad yn y graff isod:**

Mae angen ichi nodi unrhyw ganfyddiadau yma. A yw’ch ymchwil wedi nodi unrhyw effaith negyddol neu anghymesur ar grwpiau penodol? Ydyn ni wedi derbyn cwynion gan grwpiau o bobl benodol mewn perthynas â’r polisi, gweithdrefn neu weithgaredd? A yw aelodau’r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol wedi mynegi unrhyw bryderon? Nodwch unrhyw ganfyddiadau o’r fath yn y graff isod.

| **A allai’r polisi, gweithdrefn neu weithgaredd gael effaith anghymesur negyddol ar bobl sy’n rhannu’r nodwedd warchodedig hon?** | |
|---|---|
| **Ar gyfer pob nodwedd** | Gallai<br>Ni fydd copi papur yn cael ei anfon at gartrefi. Bydd hyn yn cynnwys symud dogfennau i lwyfannau ar-lein. Dileodd Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2013 y ddyletswydd gyfreithiol i gynnwys copi papur o’r llyfryn Treth Gyngor a’r daflen Heddlu gyda’r Gofynion Treth Gyngor blynyddol. Y gofyniad presennol yw cyfarwyddo’r cyhoedd i’r wefan, lle y gellir darllen y llyfryn/taflen, a dim ond darparu copi papur os yw’r cwsmer yn gofyn amdano. |
| 2.1 **Oed** (plant, pobl ifainc (17-25), pobl neu grwpiau hŷn, e.e, dros 55 oed) | Gallai<br>Rhaid i unrhyw un sy’n 18 oed neu hŷn ac sy’n berchen ar gartref, neu’n ei rhentu, dalu treth gyngor. Ystyriwyd yr effaith ariannol ar gymunedau lleol a’r effaith negyddol anghymesur bosibl ar enillwyr cyflog is, pobl sydd wedi ymddeol a myfyrwyr. |

| | |
|---|---|
| 2.2 **Anabledd** (gweladwy neu anweladwy, corfforol, gwybyddol, amhariad clyw/golwg, materion iechyd meddwl neu anawsterau dysgu) | Gallai<br>Ystyriwyd yr effaith ariannol ar bobl sydd â nam meddyliol difrifol neu sy'n ofalwyr sy'n byw gyda'r unigolion maen nhw'n gofalu amdanynt |
| 2.3 **Ailbennu Rhywedd** (Unigolion, yn aelodau staff ac yn aelodau o'r cyhoedd, sy'n trawsnewid neu sydd wedi trawsnewid o'u rhyw fiolegol adeg eu geni, anneuaidd neu ryweddhylifol) | Na |
| 2.4 **Priodas a Phartneriaeth Sifil** (gwahaniaethu ar sail cyflogaeth) | Na<br>Mae bil treth gyngor llawn yn seiliedig ar o leiaf 2 oedolyn yn byw mewn cartref.<br>Mae parau priod a phartneriaid yn gyd-gyfrifol am dalu'r bil. |
| 2.5 **Beichiogrwydd a Mamolaeth** (cyfnod y beichiogrwydd a'r amser mae rhywun yn absennol o'r gwaith cyn ac ar ôl yr enedigaeth, gan gynnwys mabwysiadu maethu a cholli baban) | Gallai<br>Mae ystyriaeth wedi'i rhoi i'r effaith ariannol ar bobl ar absenoldeb mamolaeth a allai fod ar gyflog is am gyfnod penodol o amser. |
| 2.6 **Hil** (pobl a ddiffinnir gan eu lliw a'u cenedl, gan gynnwys dinasyddiaeth, neu wreiddiau cenedlaethol neu ethnig) | Na |
| 2.7 **Crefydd neu Gred** (unrhyw grefydd, gan gynnwys dim crefydd, unrhyw gred – gan gynnwys credoau crefyddol ac athronyddol, a dim credoau) | Na |
| 2.8 **Rhyw** (Ystyriwch Gwrywaidd, Benywaidd, Rhyngryw - rhyw fiolegol a bennwyd adeg geni) | Na |
| 2.9 **Cyfeiriadedd Rhywiol** (atyniad rhamantaidd neu rywiol person i bobl eraill, neu ddiffyg atyniad) | Na |

Dywed y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol bod yn rhaid i: "Awdurdod y mae'r adran hon yn berthnasol iddo, wrth wneud penderfyniadau o natur strategol ynglŷn â sut i arfer ei swyddogaethau, roi ystyriaeth ddyledus i ddymunoldeb eu harfer mewn ffordd a luniwyd i leihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol."

| | |
|---|---|
| 2.10 **Cyflog** (cyflog is/uwch o fewn cymunedau, statws cyflogaeth, bod ar fudd-daliadau, methu gweithio) | Gallai<br>Ystyriwyd yr effaith ariannol ar gymunedau lleol a'r effaith negyddol anghymesur bosibl ar enillwyr cyflog is, pobl sydd wedi ymddeol a myfyrwyr. |
| 2.11 **Addysg** (dim addysg, cyflawniad addysgol isel, cyflawniad addysgol uchel) | Gallai<br>Ystyriwyd yr effaith ariannol ar fyfyrwyr/pobl mewn addysg llawn amser.<br>Nid oes rhaid talu treth gyngor os yw pawb sy'n byw yn y tŷ'n fyfyriwr llawn amser. |

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae angen ystyried y canlynol mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg hefyd:

| | |
|---|---|
| 2.12 Dangoswch sut yr ydych chi wedi ystyried y ffordd y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar – (a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Bydd y praesept arfaethedig yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi yn ddwyieithog, gan sicrhau felly nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br>Y mae ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar wefan SCHTh |
| 2.13 Dangoswch sut yr ydych chi wedi ystyried y ffordd **NA** fyddai gan y penderfyniad polisi effeithiau andwyol, neu sut y byddai ganddo lai o effeithiau andwyol, ar – (a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg, a (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Fel yr uchod |

**3. Cynllun gweithredu ar gyfer lleihau effaith a nodwyd**

Pan mae effaith negyddol neu anghymesur wedi'i nodi, yna mae angen inni gymryd camau i leihau'r effaith hwn, neu gael gwared arno, drwy wneud newidiadau perthnasol i'r polisi, gweithdrefn neu weithgaredd.

Pan ystyrir bod y polisi, gweithdrefn neu weithgarwch sy'n achosi'r effaith yn gyfiawnadwy, yna mae'n rhaid esbonio'r rhesymau dros y casgliad hwn yn glir.

| | |
|---|---|
| **Effaith a nodwyd:** | Ar gyfer pob nodwedd:<br>Bydd y ffaith nad yw cartrefi'n derbyn copi papur o'r hysbysiad praesept yn effeithio ar breswylwyr sydd heb fynediad i lwyfannau ar-lein. |
| **Cam gweithredu arfaethedig:**<br><br>D.S. Pan ystyrir bod yr effaith yn gyfiawnadwy, dylid nodi'r rhesymau dros hyn yn glir. | Bydd copïau wedi'u hargraffu o'r hysbysiad praesept ar gael ar gais. Mae hyn yn unol ag ymagwedd swyddfeydd CHTh eraill yng Nghymru.<br>Bydd yr Hysbysiad yn cael ei lanlwytho i'n gwefan, yn ogystal â gwefannau'r 4 Cyngor.<br>Mae pob Cyngor hefyd wedi cytuno ychwanegu brawddeg fer i'w hysbysiadau treth gyngor yn cyfeirio preswylwyr at yr hysbysiad Praesept yr Heddlu ar ein gwefan.<br>*Gwelwch fanylion praesept yr heddlu, a osodwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn, yma:*<br>Y Praesept a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (dyfedpowys-pcc.org.uk) |
| | Mae cynlluniau a gostyngiadau amrywiol ar gael ar gyfer cartrefi, fodd bynnag, cynghorau lleol sy'n rheoli'r rhain, ac nid oes gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu unrhyw ddylanwad drostynt. Yn ogystal â'r disgowntiau statudol a nodir, mae gan gynghorau'r hawl i roi disgowntiau yn ôl disgresiwn ac yn unol ag amgylchiadau lleol. |
| **Effaith a nodwyd:** | Oed: Yr effaith ariannol ar gymunedau lleol a'r effaith anghymesur posibl ar enillwyr cyflog is, pobl sydd wedi ymddeol a myfyrwyr. |
| **Cam gweithredu a gynigwyd:**<br><br>**D.S. Pan ystyrir bod yr effaith yn gyfiawnadwy, dylid nodi'r rhesymau dros hyn yn glir.** | Mae gostyngiad o 25% ar gael ar gyfer y bil os ydych chi'n cyfrif fel oedolyn ar gyfer Treth Gyngor ac rydych chi naill ai'n:<br>• byw ar ben eich hun, neu<br>• does neb arall yn cyfrif fel oedolyn yn eich cartref.<br><br>• Mae gostyngiad o 50% ar gael fel arfer os nad oes neb sy'n byw yn y cartref yn cyfrif fel oedolyn.<br>• Nid oes rhaid talu treth gyngor os oes pawb sy'n byw yn y cartref yn fyfyriwr llawn amser.<br>• Gostyngiad y gallech ei gael ar eich treth gyngor os ydych chi ar incwm isel yw Gostyngiad Treth Gyngor – sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Cymorth Treth Gyngor. |
| **Effaith a nodwyd:** | Anabledd: Yr effaith ariannol ar bobl sydd â nam meddyliol difrifol neu sy'n ofalwyr sy'n byw gyda'r unigolion maen nhw'n gofalu amdanynt. |

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu a gynigwyd:**<br><br>**D.S. Pan ystyrir bod yr effaith yn gyfiawnadwy, dylid nodi'r rhesymau dros hyn yn glir.** | Ni chynhwysir pobl sydd â nam meddyliol difrifol wrth gyfrifo'r dreth gyngor. Nid yw gofalwyr sy'n gofalu am rywun sydd ddim yn bartner, yn ŵr, yn wraig neu'n blentyn (iau na 18 oed) iddynt ac yn byw gyda nhw'n cael eu cynnwys chwaith. Gall y cynllun gostyngiad i fand treth gyngor pobl anabl hefyd wneud pobl yn gymwys ar gyfer gostyngiad os ydynt yn byw mewn eiddo mwy o faint nag y byddai angen arnynt pe na baen nhw neu unrhyw ddeiliad arall yn anabl. |
| **Effaith a nodwyd:** | Beichiogrwydd a Mamolaeth: Yr effaith ariannol ar bobl ar absenoldeb mamolaeth a allai fod ar gyflog is am gyfnod penodol o amser. |
| **Cam gweithredu a gynigwyd:**<br><br>**D.S. Pan ystyrir bod yr effaith yn gyfiawnadwy, dylid nodi'r rhesymau dros hyn yn glir.** | Gostyngiad y gallech ei gael ar eich treth gyngor os ydych chi ar incwm isel yw Gostyngiad Treth Gyngor – sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Cymorth Treth Gyngor |
| **Dyddiad cwblhau:** | 27/01/2025 |
| **Dyddiad adolygu:** | 27/01/2026 |
| **Cymeradwywyd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb gan:** | |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 07/02/2025 |

** copïwch a gludwch y tabl uchod gynifer o weithiau ag y bo angen, gan ddibynnu ar nifer yr 'effeithiau' a nodwyd)

**Cyflwynwch eich Asesiad Effaith Cydraddoldeb gorffenedig gyda'ch polisi drafft i'r Swyddog Polisi i'w adolygu. Mae polisïau'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth terfynol drwy strwythur Lywodraethu'r heddlu ar gyfer eich maes busnes cyn cyhoeddi.**